

## CANEUON Y CÔR Suo Gân


Hwiangerdd draddodiadol Gymraeg yw **Suo Gân**. ‘Does neb yn gwybod pwy gyfansoddodd yr alaw ond cofnodwyd y geirau gan gasglwr alawon gwerin amlwg iawn yn ei ddydd, Robert Bryan (1850-1920) - gŵr oedd â chysylltiadau helaeth â Chaernarfon.

Fe'i ganed yn Llanarmon yn lâl yn Sir Ddinbych ond daeth i fyw yng Nghaernarfon tra'n astudio yn y Coleg Normal Bangor. Roedd ei frawd, John, yn byw yn Segontium Terrace ac wedi agor siop gyntaf y brodyr Bryan yn 1880 yn Y Bont Bridd, yn agos i lle mae siop ddillad Trefor Jones heddiw.

Roedd eu cefnder, Samuel Evans, a fu hefyd yn byw yn y dref tra'n newyddiadurwr ar y Caernarvon & Denbigh Herald, bellach yn wâs sifil uchel yn yr Aifft. Gan fanteisio ar wybodaeth a chysylltiadau Samuel Evans, erbyn 1900 gwnaeth y brodyr Bryan eu ffortiwn mewn siopau “draper” llwyddiannus yn Cairo ac Alexandria, efo canghennau ym Mhort Said a Khartoum.

Byddai Robert Bryan yn treulio'r gaeafau yn yr Aifft gan ddychwelyd i Gaernarfon bob haf. Rhwng 1905 a 1909 roedd yn athro yn Rhostryfan. Bu farw yn Cairo ar 5 Mai 1920 ac yno y'i claddwyd.


Cyhoeddodd ddau lyfr o farddoniaeth ac, fel cerddor, golygodd ddwy gyfrol Alawon y Celt, a gyhoeddwyd yn 1905. Isod wele adroddiad papur newydd ohono'n dweud ei hanes yn yr Aifft mewn cyfarfod yng Nghapel Seilo. Mae adroddiad papur newydd arall gyferbyn sy'n dangos ei fod yn ŵr talentog, ond bregus ei iechyd.



**Gwglwch YouTube i weld fersiwn Empire of the Sun o Suo Gân ynghyd â pherfformiadau gan Charlotte Church, Bryn Terfel, Kings College Caergrawnt a llawer mwy. Ymhlith llwyth o bethau difyr eraill mae trefniant piano Easy Score (y fersiwn advanced sydd gan Mona!).**



Gwelwch ar eich copi o'r gân mai trefnydd y gerddoriaeth ac awdur y geiriau Saesneg yw Dyfed Wyn Edwards, Penygroes. Mae ef yn fwy adnabyddus i ni heddiw fel Arweinydd Cyngor Gwynedd.



Os dymunwch wybod mwy am hanes y brodyr Bryan yng Nghymru a'r Aifft, benthycwch y llyfr uchod o Lyfrgell Caernarfon—mae sawl copi yn y storfa. Robert Bryan yw'r uchaf ar y dde. Isod mae un o'u penllhythrau busnes.



*“Oherwydd gwaeledd iechyd, y mae'r boneddwr gwladgar a llengar hwn wedi penderfynu treulio'r gauaf dyfodol yn hinsawdd gynnes gwlad yr Aipht. Gwyr darllenwyr o Gymru am Mr Bryan fel llenor coeth, bardd awenber, a cherddor gwydch. Y mae wedi troi llawer o farddoniaeth dramor i'r iaith Gymraeg, a hynyn fedrus a naturiol.”*

Yn ffilm enwog Steven Spielberg, Empire of the Sun (1987), mae Suo Gân yn cael ei chanu mewn gwirionedd gan James Rainbird a'r Ambrosian Junior Choir dan gyfarwyddyd John McCarthy. Meimio'r geiriau y mae'r actor Christian Bale. Mae fersiwn offerynnol hefyd ar ddechrau'r ffilm Dutch (1991).

Ymhlith lluo o artistiaid eraill a recordiodd y gân y mae:

- Bryn Terfel, - sawl gwaith, ond yn fwyaf nodedig efallai gyda Chôr Tabernacl y Mormoniaid
- Côr Plant Vienna ar eu halbwm Nadolig 2003
- Y Royal Scots Dragoon Guards mewn albwm Spirit of the Glens, 2007
- Aled Jones
- Nana Mouskouri

A chyn bo hir— Côr Meibion Caernarfon, efallai!